

# **Cyngor Cymuned Llandderfel.**

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 5ed 2015 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gethin Morris, Gary Thomas, Alwyn Jones, Gwenda Morris a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Gwenda Evans, Tina Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

## **Cyfarfod Blynyddol.**

Croesawyd Eilir Rowlands i'r gadair a diolchwyd i Gethin Morris am ei waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ohirio ethol is-gadeirydd ac ail drafod y materion y cyfarfod ym mis Mehefin.

Seddi gwag ar Ward Llanybetws.

Derbyniwyd llythyr o ddiddordeb gan Iolo Evans, Bryn Ffynnon, Glanrafon. Cytunwyd i'w gyfethol a'i wahodd i'r cyfarfod ym mis Mehefin. Cytunwyd i ofyn i Maldwyn Jones a Gwenda Morris gael enwau ar gyfer y sedd wag arall erbyn y cyfarfod nesaf. Awgrymwyd y gellir gofyn i Glyn Rowlands, Bryn Meredydd os oedd ganddo ddiddordeb mewn ail ymuno a'r cyngor.

Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Eifion Davies, Alwyn Roberts a Gethin Morris.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands

Llywodraethwyr Ysgol Ffridd Y Llyn: Eifion Davies

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones

Cyfrifon 2014-15.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2014-15 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd angen mynd a'r cyfrifon i Ddolgellau ar y 29/5/14 i gael eu harchwilio.

Asesiad Risg a Rheoliadau Mewnol.

Cytunwyd bod yr asesiad risg a'r system rheoliadau mewnol presennol yn gywir.

Mynediad Gwybodaeth.

Derbyniwyd amrywiaeth o ohebiaeth gan Un Llais Cymru a'r Llywodraeth ynglŷn â'r newidiadau i'r canllawiau statudol ar Fynediad at Wybodaeth. Cytunwyd bod angen dilyn y canllawiau i sicrhau bod yr wybodaeth a'r gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Cytunodd y clerch i wneud ymholiadau i weld ym mha fformat oedd angen cyflwyno'r wybodaeth a'r ffordd symla i'w ychwanegu i'r wefan.

## **Cyfarfod Misol.**

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

Ffurflenni ymateb y Papur Gwyn a Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Cyngor Gwynedd.

Cafwyd cadarnhad gan y clerch bod y ddwy ffurflen ymateb wedi cael eu cwblhau.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Partneriaeth Penllyn/ Pum Plwy Penllyn**

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

### **b) Cyngor Gwynedd**

i) Derbyniwyd llythyr yn gofyn am farn y Cyngor am y cais i godi giatiau, camfeydd ayyb ar lwybrau cyhoeddus ar dir Stad y Rhiwlas, Bala. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

ii) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod 'Her Gwynedd' yn y Bala, 9/6/15 i drafod y sefyllfa ariannol ac adnabod cyfleoedd ble gall cymunedau ystyried redeg gwasanaethau yn wahanol. Gofynnwyd i'r clerc gadarnhau y byddai'r Cyngor yn bresennol a chytunwyd i ddewis cynrychiolwyr yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

### **c) Un Llais Cymru.**

i) Copi diweddaraf 'Y Llais'.

ii) Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd os oedd angen pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

iii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan yr Henblas, Bala ar y 13/5/15. Cytunodd Eilir Rowlands fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

iv) Derbyniwyd copi o ymateb Un Llais Cymru i'r Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

### **ch) Llywodraeth Cymru.**

i) Derbyniwyd llythyr yn trafod pwysigrwydd treftadaeth ein hardal ac yn ein cynghori o ddiwyddiadau dros y misoedd nesaf i roi cyfleoedd i aelodau o'r gymuned leol ymweld â safleoedd treftadaeth. Tynnwyd ein sylw yn arbennig i Capeli Llangar a Rug a oedd nepell i ffiniau'r Cyngor Cymuned.

ii) Derbyniwyd gwybodaeth am y grant a oedd ar gael i ddiogelu cofebion rhyfel. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau am y gofeb yn Llandderfel.

### **d) Amrywiol**

i) Mynyddoedd Pawb – Derbyniwyd gwybodaeth am y ddeiseb i annog Llywodraeth Cymru i ddarbwylio cyrff a sefydliadau i ddiogelu a pharchu ein cyfoeth o enwau lleoedd.

ii) Cyngor Tref Y Bala - Derbyniwyd neges yn ei chynghori eu bod wedi anfon at yr Adran Cefnffyrdd i fynegi eu pryder ynglŷn â'r diffyg arwyddion yn rhybuddio gyrwyr bod Stad Rhiwlas yn croesi gwartheg ar y A494.

## **Ceisiadau Cynllunio.**

### **Cyngor Gwynedd**

Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori o'r newidiadau i'r gwasanaethau a gynigir cyn gwneud cais cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd yw cefnogi:-

C15/0078/04/LL - Trosi adeilad amaethyddol traddodiadol yn uned wyliau. Penucha'r Llan, Llanfor.

C15/0263/04/LL - Dymchwel lolfa haul bresenol a chodi estyniad llawr cyntaf a lolfa haul iochr yr annedd.

Bryn Teg, Llandderfel.

C15/0138/04/TR – Cynlluniau diwygiedig ar gyfer codi ty deulawr gyda mordurdy interol. Berwyn Deg,

Llandderfel.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/63/237A - Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer mast 7.5m ac adeilad cyfarpar. Ciltalgarth, Frongoch.

### **Materion Ariannol.**

#### **Archwiliad Mewnol y Cyngor.**

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Cytunwyd i apwyntio John Roberts i wneud yr archwiliad mewnol fel yr arfer.

#### **Ffioedd y mynwentydd 2015-16.**

Cafwyd trafodaeth am y ffioedd i'w codi yn 2015-16 a chytunwyd i gasglu rhagor o wybodaeth ac ail drafod y mater yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £3450

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Came & Company (Yswiriant)

#### **Cais ariannol.**

Derbyniwyd llythyr gan y grŵp 'Ffrindiau Neuadd Buddug' yn gofyn am gefnogaeth ariannol i'w ymgych i brynu offer i sicrhau dyfodol y neuadd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £100.

### **Unrhyw Fater Arall**

#### **Trofeydd Gors y Sarnau.**

Roedd y cynghorwyr yn falch bod yr Adran Cefnffyrdd wedi cymryd y camau priodol i ddiogelu A494 yng Nghefnddwysarn a throfeydd Gors y Sarnau ond roeddynt yn siomedig yn y diffyg cyfathrebu i gynghori'r Cyngor am y gwaith. Gofynnwyd i'r clerc holi pam nad oedd y troad olaf ger pentref Sarnau wedi cael ei gynnwys yn y gwaith a phryd oedd y polyn trydan yn cael ei symud o gyffordd Cefnddwysarn.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,  
Mehefin 2il yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**